**ATODIAD A**

**CYFALAF**

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| **RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2024/25 £'000** | **2025/26 £'000** | **2026/27 £'000** |
| **Cynlluniau Asedau'r Cyngor :** | | | |
| Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 9,023 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Tai | 3,000 | 1,300 | 1,300 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes | 2,500 | 0 | 0 |
| Cartrefi/ Canolfannau Oedolion | 1,515 | 0 | 0 |
| Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol | 1,051 | 1,700 | 2,078 |
| Atal Llifogydd Arfordirol | 793 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Eraill | 3,136 | 1,023 | 1,251 |
| Bidiau Cyfalaf | 2,123 | 500 | 500 |
| **Cynlluniau Eraill :** | | | |
| Strategaeth Dai – Cronfa Premiwm Treth y Cyngor | 0 | 0 | 2,549 |
| Strategaeth Dai - Prynu i Osod | 0 | 0 | 2,880 |
| *Cynlluniau Eraill Eisoes wedi eu Cymeradwyo :* | | | |
| Cynlluniau Cronfa Ffyniant Gyffredin | 16,406 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro | 10,098 | 3,239 | 0 |
| Cynlluniau/Strategaeth Tai | 14,940 | 5,430 | 0 |
| Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 7,031 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Eiddo | 3,254 | 0 | 0 |
| Atal Llifogydd Arfordirol | 3,113 | 0 | 0 |
| Cerbydau Adrannol | 2,960 | 962 | 0 |
| Unedau Diwydiannol | 1,424 | 0 | 0 |
| Eraill | 2,858 | 402 | 362 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | **85,225** | **14,556** | **10,920** |

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

| ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF | | | |
|---|---|---|---|
| | **2024/25 £'000** | **2025/26 £'000** | **2026/27 £'000** |
| Benthyca Gyda Chefnogaeth | 4,057 | 4,057 | 4,057 |
| Benthyca Arall | 11,329 | 3,242 | 3,242 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 39,542 | 5,792 | 2,553 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 99 | 0 | 0 |
| Cronfa Cyfalaf | 12,286 | 41 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 17,912 | 1,424 | 1,068 |
| **CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN** | **85,225** | **14,556** | **10,920** |

4. Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.

5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu proffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2022/23 ymlaen.

6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2024/25 i 2026/27, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.

7. Mae'r ffigwr Benthyca Gyda Chefnogaeth a'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru fymryn yn llai yn 2024/25 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau ac rwyf wedi addasu'r rhaglen i gydfynd.

8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £85,224,800 ar gyfer 2024/25, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.